**Cynllun cytundeb triniaeth – Gabapentin neu pregabalin**

**Enw'r claf:** ___________________________ **Dyddiad**: ________

**Meddyginiaeth:** ☐ Gabapentin ☐ Pregabalin

**Pam mae'r feddyginiaeth hon yn cael ei hystyried?**
Gellir defnyddio gabapentin neu pregabalin ar gyfer poen nerf (niwropathig), ond nid ydyn nhw'n helpu pawb a gallan nhw achosi niwed. Dim ond tua 1 o bob 9 o bobl sy'n teimlo gwelliant. Am y rheswm hwn, mae triniaeth yn cael ei dechrau fel treial a dim ond os oes budd swyddogaethol clir y bydd yn parhau.

**Risgiau a sgil-effeithiau posibl**
Rwy'n deall y gall gabapentin neu pregabalin achosi:

- Cysgadrwydd, pendro, canolbwyntio gwael neu broblemau cydbwysedd;
- Dibyniaeth, lle mae'r corff yn dod i arfer â'r feddyginiaeth ar ddosau rhagnodedig, a all ei gwneud hi'n anodd rhoi'r gorau i'w chymryd;
- Caethiwed, a all ddatblygu'n raddol ac sy'n golygu teimlo awydd cryf i gymryd y feddyginiaeth neu ei chael hi'n anodd rheoli faint rydych chi'n ei defnyddio;
- Risg uwch o niwed difrifol, gan gynnwys problemau anadlu yn enwedig os cânt eu cymryd gydag opioidau (fel morffin, codin), bensodiasepinau (fel diazepam), cyffuriau Z (fel zopiclone), neu feddyginiaethau eraill sy'n gweithredu ar y system nerfol ganolog.

**Nodau swyddogaethol y cytunwyd arnynt (beth yw llwyddiant, cytuno ar 2 neu 3 nod penodol)**
1.__________________________________________________________
2.__________________________________________________________
3.__________________________________________________________

**Rheolaeth anfferyllol**
Dim ond **un rhan** o reoli poen yw meddyginiaeth. Rydym wedi trafod a chytuno:

☐ Gweithgarwch corfforol neu ffisiotherapi
☐ Rheoli cyflymder neu weithgarwch
☐ Cymorth seicolegol
☐ Cymorth i gysgu
☐ Hunanreoli â chymorth
☐ Addysg a chyngor
☐ Arall: ________________

## Adolygu a rhoi'r gorau i'r cynllun

- Dyddiad adolygu meddyginiaeth wedi'i gynllunio: ________________________
- Dim ond os oes budd swyddogaethol clir yn unol â'r nodau y cytunwyd arnyn nhw y bydd y driniaeth yn parhau.
- Bydd y driniaeth yn cael ei lleihau a'i hatal os:
    - nad yw'r nodau swyddogaethol y cytunwyd arnyn nhw'n cael eu cyflawni eu cynnal, neu
    - os bydd sgil-effeithiau, pryderon diogelwch, camddefnydd neu ddibyniaeth yn codi.

Cedwir y cynllun cytundeb hwn yn eich cofnodion a chyfeirir ato yn ystod y driniaeth.

Ticiwch bob blwch i gadarnhau eich bod wedi deall:

☐ Rwy'n deall nad yw'r feddyginiaeth hon o bosibl yn mynd i helpu fy mhoen.

☐ Rwy'n deall y risgiau a'r sgil-effeithiau posibl.

☐ Rwy'n deall mai dim ond os oes budd swyddogaethol clir y bydd y driniaeth yn parhau.

☐ Rwy'n deall y bydd y feddyginiaeth yn cael ei hatal os nad yw'n helpu neu os yw'n achosi niwed.

☐ Rwy'n cytuno i fynychu adolygiadau a dilyn y cynllun triniaeth y cytunwyd arno.

**Llofnod y claf:** ____________________________________________

**Enw a llofnod y presgripsiynydd:**__________________________________________